Diwrnod VE a VJ 80: Diwedd yr Ail Ryfel Byd

Canllaw Cyflwynydd

ROYAL BRITISH LEGION

Diben

Mae'r ddogfen hon yn cynnig arweiniad ar rannu'r cyflwyniad PowerPoint sy'n cyd-fynd â Diwrnod VE (Buddugoliaeth yn Ewrop) a VJ (Buddugoliaeth dros Japan). Anela at sicrhau bod y naratif pwysig hwn yn cael ei chyflwyno yn gywir ac yn barchus o fewn eich cymuned.

Cynulleidfa Darged

Grwpiau cymunedol, unigolion a'r holl grwpiau â diddordeb.

Egwyddorion Allweddol

- **Cofio:** Mae Diwrnod VE a VJ yn nodi diwedd yr Ail Ryfel Byd, a'r aberth aruthrol a wnaed. Trafodwch y pwnc â sensitifrwydd i'r holl rai a wasanaethodd ac a ddioddefodd.
- **Cywirdeb Hanesyddol:** Cadwch at y wybodaeth yn y PowerPoint.
- **Adrodd Stori'n Gynhwysol:** Dylech gydnabod cyfraniadau amrywiol unigolion o bob cefndir yn ystod y rhyfel. Tynnwch sylw at rolau lluoedd y Gymanwlad a'r Cynghreiriaid, ynghyd â chyfeirio at brofiadau sifiliaid.
- **Addasrwydd o ran Oedran:** Addaswch eich ffordd o gyflwyno i'r gynulleidfa. Byddwch yn ystyriol o natur graffig rhai agweddau ar y rhyfel ac addaswch lefel y manylion yn unol â hynny, yn enwedig os ydych chi'n cyflwyno i bobl ifanc.
- **Amser y Flwyddyn:** Er bod Diwrnod VE ym mis Mai a Diwrnod VJ ym mis Awst, mae'r cyflwyniad hwn yn berthnasol i'w gyflwyno ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Awgrymiadau Cyflwyno'r Cyflwyniad

- **Paratoi:** Ymgyfarwyddwch eich hun â chynnwys y PowerPoint ac ymarfer eich cyflwyniad o flaen llaw.
- **Cymhorthion Gweledol:** Trafodwch y delweddau yn y cyflwyniad i gyfoethogi ymgysylltu a dealltwriaeth.
- **Straeon Personol:** Os yw'n briodol, dylech gynnwys straeon neu hanesion personol gan gyn-filwyr neu sifiliaid er mwyn personoli'r naratif hanesyddol. Serch hynny, sicrhewch fod gennych ganiatâd i wneud hynny, a bod y straeon yn gywir.
- **Ymgysylltu:** Anogwch gyfranogiad cynulleidfa trwy gwestiynau a thrafodaethau ac anogwch gymryd rhan mewn Cofio i anrhydeddu'r rheini a wasanaethodd neu sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd.
- **Y Lleng Brydeinig Frenhinol:** Crybwyllwch yn gryno waith y Lleng Brydeinig Frenhinol a phwysigrwydd Apêl y Pabi wrth gefnogi cyn-filwyr a'u teuluoedd.
- **Dau Ddigwyddiad Ar Wahân:** Sicrhewch fod y gynulleidfa yn deall bod Diwrnod VE a Diwrnod VJ yn ddau achlysur ar wahân, a ddigwyddodd fisoedd ar wahân, ac am wahanol resymau.
- **Cyfeirio:** Cyfeiriwch at wybodaeth bellach, megis gwefan y Lleng Brydeinig Frenhinol, archifau lleol a chymdeithasau hanesyddol.

Ymdrin â Materion Sensitif

- **Colledion a Dioddefaint:** Byddwch yn ystyriol o effaith emosiynol trafod colledion a dioddefaint. Cynigiwch gefnogaeth ac adnoddau os oes angen.
- **Testunau Dadleuol:** Os bydd testunau sensitif neu ddadleuol yn codi, ymdriniwch â nhw â sensitifrwydd a gwrthrychedd. Osgowch fynegi barnau personol na chymryd ochrau.
- **Cwestiynau:** Byddwch yn barod i ateb cwestiynau yn onest ac yn barchus. Os nad ydych chi'n gwybod yr ateb, dylech ei gydnabod a chynnig canfod yr ateb

Cefnogaeth y Lleng Brydeinig Frenhinol

- Cysylltwch â'ch cangen Lleng Brydeinig Frenhinol am wybodaeth, adnoddau neu gefnogaeth bellach.
- Ymwelwch â gwefan y Lleng Brydeinig Frenhinol am ddeunyddiau addysgiadol a gwybodaeth ar ddigwyddiadau i ddod.
- Mae gennym ddiddordeb yn eich adborth ar y cyflwyniad ac ymateb y gynulleidfa, cysylltwch a rhannwch â ni trwy **Remembrance@britishlegion.org.uk**

Trwy ddilyn y canllawiau hyn, gallwch helpu i sicrhau bod Diwrnod VE a VJ yn cael eu nodi'n briodol, trwy feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cyfnod pwysig hwn.



Mae'r cyflwyniad hwn yn deyrnged i'r rheini a wasanaethodd ac a aberthodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Dylid ymdrin â'r cyfan â pharch a sensitifrwydd, gan sicrhau bod eu straeon yn cael eu hanrhydeddu a'u cofio.

- Croesawch y gynulleidfa a diolch iddynt am fynychu.
- Rhowch gyflwyniad cryno i'r testun a'i arwyddocâd.
- Crybwyllwch nodi 80 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd.



- Myfyriwch ar raddfa ddifrodus y rhyfel a'r effaith fyd-eang.
- Crybwyllwch yr 80 mlynedd a phwysigrwydd cofio.

Delwedd: Dathliadau Diwrnod VJ, Palas Buckingham.



Delwedd: Dorothea Barron, signalwr gweledol WRNS

- Myfyriwch ar raddfa ddifrodus y rhyfel a'r effaith fyd-eang.



- Esboniwch arwyddocâd Diwrnod VE a'r Almaen yn ildio.
- Disgrifiwch ddathliadau digymell a'r awyrgylch o ryddhad.

Delwedd: Diwrnod VE yn Llundain 1945. Milwyr yn ymuno â gorfoleddwyr wrth iddynt ddathlu Diwrnod VE yn Llundain



- Crybwyllwch heriau pontio o ryfel i heddwch.

Delwedd: LLUNDAIN - MEHEFIN 30: Ar 30 Mehefin 1944, dioddefodd Aldwych WC2 un o'r ymosodiadau bom hedfan V1 mwyaf marwol y rhyfel. Pythefnos ar ôl yr ymosodiadau V1 cyntaf ar Lundain, clywyd sŵn bygythiol 'Doodlebug' arall dros y brif ddinas. Roedd Aldwych yn llawn gweithwyr yn dychwelyd o'u hawr ginio neu'n sefyll mewn rhes yn y Swyddfa Bost leol. Am 2.07pm hedfanodd yr V1 yn dawel dros y Tafwys, gan blymio i lawr i ffrwydro ar y ffordd rhwng y Weinyddiaeth Awyr ac adain ogledd-ddwyrain Bush House, cartref Gwasanaethau Allanol y BBC. Er i'r Weinyddiaeth Awyr o ffrâm dur amsugno rhan helaeth o'r ffrwydrad, gan adael adeiladau naill ochr a'r llall i'r ffordd yn gyfan i raddau helaeth, pladuriodd ton y ffrwydrad i lawr y stryd. Lladdwyd 46 o bobl a dioddefodd o leiaf 200 arall anafiadau difrifol. Cafodd lawer o'r rhain eu hachosi gan ddarnau gwydr yn hedfan o'r cannoedd o ffenestri a chwalwyd. Bu farw pum aelod o Lu Awyr Atodol y Menywod (WAFF) ar loriau uchaf y Weinyddiaeth Awyr. Gerllaw, dioddefodd Australia House ddifrod difrifol a dinistriwyd cyntedd Theatr Aldwych.

- Disgrifiwch yn gryno'r amryw ddathliadau a gynhaliwyd o amgylch y byd.
- Os yw'n bosibl, rhannwch hanesion neu straeon personol eraill yn ymwneud â dathliadau Diwrnod VE

Delwedd Chwith: Parti plant yn dathlu Diwrnod VE yn Ne Llundain.

Delwedd Dde: Dathliadau Diwrnod VE yn Nairobi, Kenya. Band Reifflau Affricanaidd y Brenin yn arwain gorymdaith trwy strydoedd llawn prif ddinas Kenya. Ehangwyd yn helaeth ar y gatrawd yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac ar un pryd roedd yn cynnwys 44 bataliwn a sawl cwmni garsiwn annibynnol.

Dorothea Barron

Dorothea Barron

Ymrestriad: 1942 yn 18 oed

Cangen Gwasanaeth: Gwasanaeth Llynges Frenhinol y Menywod (WRNS)

Rôl: Signalwr Gweledol

Wedi'i hysbrydoli gan draddodiadol teuluol, roedd Dorothea yn benderfynol o ymuno â'r Llynges. Fe hyfforddodd yn Swydd Gaerlŷr fel Signalwr Gweledol a gwasanaethodd yn nifer o ganolfannau'r Llynges yn yr Alban a De Lloegr, gan anfon a derbyn negeseuon gan longau. Chwaraeodd rôl allweddol wrth adnabod llongau cyfeillgar a'r gelyn.

Diwrnod VE/Diwrnod VJ: "Roeddwn ar drên yn dychwelyd o'r Alban...yn sydyn, pan ddigwyddodd Diwrnod VE, cawsom i gyd ganiatâd i fynd adref, fel nad oedd angen iddynt boeni am ein bwydo ni!" Ar Ddiwrnod VJ, "Roedd Andrew a finnau ar Bont Llundain ar Ddiwrnod VJ, oherwydd roeddwn wedi cwrdd ag ef erbyn hynny, ac roeddem yn canlyn, fel y byddech chi'n ei wneud bryd hynny."

Ôl-ryfel: Priododd Dorothea ac Andrew a magu teulu. Mae wedi parhau i fyw bywyd egnïol ac wedi bod yn dysgu yoga ers dros 50 o flynyddoedd.

- Rhannwch fanylion am ysbrydoliaeth Dorothea Barton am ymuno â'r Llynges a'i rôl fel Signalwr Gweledol.
- Crybwyllwch ei hyfforddiant a'i lleoliadau yn yr Alban ac Ynys Wyth.
- Tynnwch sylw at ei rôl hanfodol wrth adnabod llongau.
- Ailadroddwch ei hatgofion o Ddiwrnod VE a Diwrnod VJ.
- Disgrifiwch yn gryno ei bywyd a'i theulu ar ôl y rhyfel.

Ralph Ottey

Ralph Ottey

Ymrestriad: Ym 1944 yn 19 oed

Cangen Gwasanaeth: Y Llu Awyr Brenhinol (RAF)

Rôl: gyrrwr dosbarth cyntaf awyrluyddwr

Yn hanu'n wreiddiol o Jamaica, gwasanaethodd Ralph fel gyrrwr gyda Sgwadron Woodhall Spa 617 (Chwalwyr yr Argae) y RAF, gan yrru'r swyddog a oedd yn gyfrifol am glirio bomwyr Lancaster i hedfan.

Diwrnod VE/Diwrnod VJ: "Gallaf gofio'n glir Diwrnod VE, cofiaf Churchill yn dweud 'The enemy has fallen at our feet and we must take true magnanimity in victory.' Dyn gwych, Churchill. Roedd yn dipyn o ddiwrnod!" Roedd yn hyfforddi i fod yn fagnelwr awyr yn Swydd Lincoln pan dorrodd y newyddion am Japan yn ildio, gan ddod â'r brwydro i ben.

Ar ôl y Rhyfel: Defnyddiodd Ralph ei ysgoloriaeth RAF i astudio busnes, gweithiodd yn Jamaica, yna dychwelyd i Loegr, priodi, a chafodd yrfa busnes llwyddiannus.

- Rhannwch fanylion am fywyd Ralph Ottey, ei ymrestriad, a'i rôl yn y RAF.
- Tynnwch sylw at ei wasanaeth gyda Sgwadron 617 (Chwalwyr yr Argae).
- Ailadroddwch ei atgofion o Ddiwrnod VE ac araith Churchill.
- Crybwyllwch ei hyfforddiant fel magnelwr awyr a newyddion am Japan yn ildio.
- Disgrifiwch yn gryno ei yrfa lwyddiannus ar ôl y rhyfel.

Wrth i genhedloedd y Cynghreiriaid orfoleddu ar ddiwedd y rhyfel yn Ewrop, parhaodd y brwydro ffyrnig i rwygo yn y Dwyrain Pell a'r Môr Tawel.



- Esboniwch y brwydro parhaus yn y Dwyrain Pell ar ôl Diwrnod VE.
- Trafodwch effaith y bomiau atomig ar Hiroshima a Nagasaki.
- Crybwyllwch Japan yn ildio ac arwyddocâd Diwrnod VJ.
- Myfyriwch ar waddol dinistriol rhyfel.

Delwedd: Ar y ffrynt Imphal, gweithreda signalwr Sikh radio symud a siarad ar gyfer swyddogion Prydain, gan wrando ar batrolau yn adrodd ar leoliadau'r Japaneaid

- Disgrifiwch y dathliadau byd-eang yn nodi diwedd y rhyfel.
- Tynnwch sylw at y llawenydd a'r rhyddhad a deimlwyd gan bobl o amgylch y byd.
- Os yw'n bosibl, rhannwch hanesion neu straeon personol yn gysylltiedig â dathliadau Diwrnod VJ.

Delwedd Chwith: Y torfeydd gorfoleddus yn Piccadilly Circus yn Llundain ar glywed bod y Japaneaid wedi ildio ar Ddiwrnod VJ yn Lloegr, Awst 10, 1945.

Delwedd ar y Dde: Roedd gorymdaith o 5,000 o filwyr yn rhan o Ddathliadau Diwrnod VJ Nairobi. Y llun yn dangos: Gorymdaith i'w gweld o do adeilad tal yn Delamere Avenue. 15 Awst 1945

Yavar Abbas

Yavar Abbas

Ymrestriad: Ebrill 1942

Cangen Gwasanaeth: Byddin Indiaidd Prydain

Rôl: Dyn Camera Brwydro

Roedd Yavar yn yr 11eg Catrawd Sikh pan fanteisiodd ar y cyfle i hyfforddi fel dyn camera brwydro. Cipiodd fomentau hanfodol yn ymgyrch y Dwyrain Pell, megis canlyniadau dirdynnol Brwydr Kohima, Brwydr Mandalay a difrod Hiroshima.

Diwrnod VE/Diwrnod VJ: Roedd Yavar yn Delhi ar Ddiwrnod VE a VJ. Teimlai fod gwasanaeth ac aberth Byddin yr India wedi'u hanghofio. "Gwnaeth Byddin yr India gyfraniad anferth, ond ni chafodd ei gydnabod."

Ar ôl y Rhyfel: Symudodd Yavar i'r DU a daeth yn awdur, yn ddarlledwr ac yn wneuthurwr ffilm enwog. Mae'n eiriolwr huawdl dros heddwch a chred fod Cofio yn ymwneud â dysgu o'r gorffennol i adeiladu dyfodol gwell.



- Rhannwch fanylion am ymrestriad Yavar Abbas, ei rôl fel dyn camera brwydro, a'r 11eg Catrawd Sikh.
- Soniwch amdano yn dogfennu brwydrau allweddol yn y Dwyrain Pell a Hiroshima.
- Trafodwch ei safbwynt ar gyfraniadau Byddin yr India sydd wedi'u hanghofio.
- Disgrifiwch yn gryno ei yrfa ar ôl rhyfel fel awdur, darlledwr, a gwneuthurwr ffilm.
- Pwysleisiwch ei waith eirioli dros heddwch a chofio.

Ffurfiodd yr Ail Ryfel Byd yr 20fed ganrif - ac mae'n parhau i ddylanwadu ar ein byd heddiw.

- Trafodwch nodau darparu gofal iechyd, tai, addysg, a nawdd cymdeithasol.

Delwedd: Ward ysbyty modern yn y DU - gorsaf nyrsys. Dwy nyrs yn trafod dogfennau cleifion gyda meddyg benywaidd. Meddyg gwrywaidd yn cerdded heibio.



- Trafodwch effaith seicolegol y rhyfel ar bersonél gwasanaeth a sifiliaid.
- Esboniwch gydnabyddiaeth ar “Flinder Brwydro” (PTSD) a thriniaethau newydd.
- Pwysleisiwch ostyngiad mewn stigma yn ymwneud â salwch meddwl.
- Disgrifiwch yn gryno y gofeb a’i lleoliad yn y Goedardd Goffa Genedlaethol.
- Esboniwch ei diben fel lle i gofio’r rheini a frwydrodd gyda PTSD a salwch meddwl eraill.

Delwedd: Y gofeb Sapper Support yn y Goedardd Goffa Genedlaethol – lle i deuluoedd a ffrindiau gofio’r rheini sydd wedi ein gadael ni ar ôl brwydro â PTSD a salwch meddwl cysylltiedig eraill.



- Trafodwch sut y newidiodd rolau menywod yn ystod y rhyfel.
- Tynnwch sylw at eu galluoedd a'u cyfraniadau mewn amryw feysydd.
- Crybwyllwch effaith hawliau a rolau cymdeithasol menywod.

Delwedd: Milwr Benywaidd, Byddin y Brenin, Magnelwyr Ceffylau Brenhinol. Mae Byddin y Brenin, Magnelwyr Ceffylau Brenhinol yn uned seremonïol o Fyddin Prydain, yn lletya yn Woolwich. Mae'n uned ar gefn ceffylau ac mae'i holl filwyr wedi'u hyfforddi i ofalu am a gyrru timau o chwe cheffyl yn tynnu pob un o'r chwe gwn maes 13 pwys cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf a ddefnyddir heddiw i danio saliwtiau ar achlysuron gwladol. Mae ei ddyletswyddau yn cynnwys tanio saliwtiau brenhinol ar ben-blwyddi brenhinol ac achlysuron gwladol, a chynnig cludwr gynnau a thîm o geffylau du ar gyfer angladdau gwladol a milwrol. Mae'r uned i'w gweld amlaf yn darparu saliwtiau gynnau ar achlysuron gwladol yn Hyde Park, a Green Park.

- Trafodwch rôl y rhyfel wrth gyflymu datblygiad technolegol.
- Rhowch enghreifftiau o ddatblygiadau hedfan, meddygaeth, a gwyddoniaeth niwclear.
- Crybwyllwch ddatblygiad radar, penisilin, impio croen, prostheteg, a chyfrifiaduron.
- Trafodwch yn gryno ddefnydd dadleuol ar fomiau atomig a'u defnydd adeg heddwch.

Delwedd: Lloegr, Swydd Buckingham, Bletchley, Bletchley Park, Cyfrifiadur Colossus

- Esboniwch sut yr effeithiodd y rhyfel ar safle byd-eang Prydain.
- Crybwyllwch ymddangosiad yr Unol Daleithiau a'r Undeb Sofietaidd fel uwch bwerau.
- Trafodwch ffurfio'r Cenhedloedd Unedig a NATO.
- Tynnwch sylw at ymrwymiad Prydain wrth atal gwrthdaro yn y dyfodol.

Delwedd: Baner NATO yn hedfan ar Gastell Caerdydd yn ystod uwchgynhadledd NATO a gynhaliwyd yng Nghasnewydd.

- Trafodwch gyfraniadau Gwledydd y Gymanwlad i'r ymdrech ryfel.
- Esboniwch sut y gwnaeth y rhyfel ddylanwadu ar ddad-drefedigaethu a mudiadau annibyniaeth.
- Crybwyllwch y berthynas wedi'i hail-ffurfio rhwng Prydain a'i gyn-drefedigaethau.
- Tynnwch sylw at esblygiad parhaus y Gymanwlad a'i gwerthoedd ar y cyd.

Delwedd: Milwr o Ddwyrain Affrica wedi'i glwyfo yn cael ei gario ar stretsier gan filwyr ar ôl brwydro ym Myrma yn ystod yr Ail Ryfel Byd Mawrth 19

- Anogwch fyfyrio personol a chymryd rhan mewn gweithgareddau cofio.
- Esboniwch symbolaeth y pabi a'i gysylltiad â chofio a gobaith.

Delwedd: Joe Cattini - Cyn-filwr yr Ail Ryfel Byd yng Ngorymdaith flynyddol Y Lleng Brydeinig Frenhinol yn pasio'r Senotaff ar Sul y Cofio, 2022.

- Esboniwch symbolaeth y pabi a'i gysylltiad â chofio a gobaith.
- Crybwyllwch rôl y pabi wrth gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.
- Esboniwch fod gwisgo pabi yn ddewis personol.



Esboniwch sut y mae'r gefnogaeth hon o fudd i gyn-filwyr, personél sy'n gwasanaethu, a'u teuluoedd.

Delwedd Uchaf: Brian Garner a Claire Moorhouse, Nyrs Admiral. Mae Bill wedi cael gyrfa hir yn y fyddin. Ymunodd â'r fyddin yn 19 oed ar roedd yng Nghadetiaid y Fyddin cyn hynny. Fe wasanaethodd yn y Signalwyr Brenhinol am 36 mlynedd, gan ymddeol yn 55 oed, pan oedd yn Uwch-ringyll Catrodol. Derbyniodd ddiagnosis clefyd Alzheimer yn 2021.

Delwedd Gwaelod ar y Chwith: Sara Howarth ac Alexandra McClellan o Dîm y DU yn cystadlu yn y Rhwyfo Dan Do yng Ngemau Invictus, Vancouver, Canada Ddydd Sul 16 Chwefror 2025. Gwaelod

Delwedd Dde: Capten Myles, Byddin Prydain, Katie Myles a'u mab, casglwyr gwirfoddol ar Ddiwrnod Pabi Llundain ar 31 Hydref 2024.



- Diolchwch i'r gynulleidfa am eu hamser a'u sylw.
- Ailadroddwch bwysigrwydd cofio'r aberth a wnaed yn ystod y rhyfel.

PUBLISHED: MARCH 2025

ROYAL BRITISH LEGION

Registered charity number: 219279 | rbl.org.uk